**Atodiad A**

**Ymateb i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ar y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf - (CR-LD7923).**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n croesawu'r argymhellion yn yr adroddiad, ac wedi derbyn pob un ohonynt. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi diweddariad ymhen 12 mis i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ynglŷn â'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r argymhellion. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n tybio bod corff yr adroddiad yn anghytbwys a phleidiol, o'i gymharu ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar y rhaglen.

Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn mynd i'r afael â materion cymhleth a chydgysylltiedig sydd wedi ymwreiddio'n ddwfn mewn cymunedau difreintiedig. Mae'n fuddsoddiad hirdymor, ac mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau'n ymrwymedig i roi sylw i anghenion yr ardaloedd o amddifadedd.

Nid yw'r adroddiad yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i'r gwaith da a wneir gan bartneriaethau a chydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf yn lleol – yn aml o ganlyniad i gydweithio agos â darparwyr gwasanaethau. Mae llawer o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn teimlo'n siomedig nad yw eu gwaith wedi'i werthfawrogi'n ddigonol yn yr adroddiad.

***Argymhelliad 1.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn derbyn yr argymhellion a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad a'i bod yn egluro'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i roi'r argymhellion hyn ar waith ac yn paratoi amserlen ar gyfer hynny.*

Nodir isod ymatebion Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion unigol:

a) Ni roddwyd blaenoriaeth i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar draws holl adrannau Llywodraeth y Cynulliad. O ganlyniad, bu'n anodd i'r rhaglen gyflawni ei nod o ailgyfeirio cyllid prif ffrwd a newid y modd y cyflenwir gwasanaethau cyhoeddus er mwyn cefnogi amcanion Cymunedau yn Gyntaf. **O gofio bod angen i wasanaethau cyhoeddus roi blaenoriaeth i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf os yw honno i lwyddo, dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud Cymunedau yn Gyntaf yn flaenoriaeth fwy pendant ar draws ei hadrannau ei hunan, a dylai llwyddiant Llywodraeth y Cynulliad o ran cysoni canlyniadau'r gwahanol ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fod yn ystyriaeth allweddol wrth fesur ei pherfformiad.**

*Ymateb*

***Derbyn***

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud Cymunedau yn Gyntaf yn flaenoriaeth ar draws ei hadrannau, yn enwedig wrth ddatblygu polisïau newydd. Ymgorfforwyd Cymunedau yn Gyntaf yn y broses Porth i Bolisïau newydd, a bydd rhaid i bolisïau newydd ddangos sut maent yn targedu'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac yn cysylltu â'r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Rydym wedi ymrwymo i symud yr agenda plygu rhaglenni ymlaen. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi ystyriaeth bellach i gamau gweithredu newydd a fydd yn hwyluso gwell perthynas waith ac ymgysylltiad agosach ("plygu rhaglenni") rhwng cyflenwyr gwasanaethau a Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Un enghraifft ddiweddar o'r modd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn blaenoriaethu'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yw'r cynllun peilot i roi gliniaduron i blant – un o ymrwymiadau 'Cymru'n Un'. Ar sail yr ymchwil sy'n dangos bod trigolion ardaloedd o amddifadedd yn fwy tebygol o gael eu heithrio o'r byd digidol, penderfynwyd targedu'r cynllun hwn yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i ddechrau, yn ogystal â'r ardaloedd Dechrau'n Deg.

Mae gan y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ran allweddol i'w chwarae i gyflawni Canlyniadau Strategol Llywodraeth y Cynulliad. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys lleihau tlodi, sicrhau bod pobl yn byw mewn cymunedau trefol a gwledig sy'n ddiogel, ffyniannus a chynhwysol ac adfywio cymunedau ar draws Cymru. Rhennir y Canlyniadau Strategol ar draws Llywodraeth y Cynulliad ac maent yn ganolog i'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Cynhelir gwerthusiad allanol o'r rhaglen yn ystod 2010-11. Bydd yn cynnwys dwy elfen annibynnol: gwerthusiad o'r canlyniadau a gwerthusiad o'r broses. Nod y gwerthusiad o'r canlyniadau yw darparu tystiolaeth ynglŷn â'r graddau y mae amcanion sylfaenol y rhaglen wedi'u cyflawni dros gyfnod bywyd y rhaglen hyd yma. Bydd y gwerthusiad o'r broses yn canolbwyntio ar gyfnod presennol y rhaglen (2009-2012) gan edrych ar addasrwydd y dulliau o ddylunio, gweithredu a chyllido'r rhaglen o ran cyflawni ei nodau a'i hamcanion.

b) Mae'r Partneriaethau wedi cael trafferth i oresgyn rhai rhwystrau sylweddol rhag plygu gwasanaethau a rhaglenni yn lleol, gan gynnwys diffyg gorfodaeth neu gyfarwyddyd i gael y darparwyr gwasanaethau i flaenoriaethu'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. **Yn y dyfodol dylai Llywodraeth y Cynulliad gynyddu'r pwyslais yn yr holl ganllawiau**

**strategol ar yr angen i flaenoriaethu'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Pryd bynnag y bo'n briodol, wrth fonitro perfformiad gwasanaethau unigol, dylai Llywodraeth y Cynulliad ganolbwyntio mwy ar y graddau y mae'r gwasanaethau'n lleihau'r bwlch rhwng canlyniadau'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a gweddill y wlad.**

*Ymateb*

***Derbyn***

Mae'r prif ganllawiau Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu diwygio ar hyn o bryd, a rhoddir rhagor o bwyslais ar dargedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a chydweithio gyda phartneriaid Chymunedau yn Gyntaf. Diwedd 2010 yw'r dyddiad targed ar gyfer diwygio'r canllawiau'n llawn, ond bydd yr elfennau pwysicaf wedi'u diwygio erbyn mis Awst. Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn sicrhau bod ei pholisïau ehangach, cynlluniau a chanllawiau ehangach yn cyfeirio'n briodol at y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Caiff hyn ei ategu a'i gryfhau ymhellach drwy'r broses Porth i Bolisïau, sydd eisoes wedi'i chryfhau er mwyn ei gwneud yn ofynnol rhoi ystyriaeth benodol i Cymunedau yn Gyntaf wrth ddatblygu polisïau newydd.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn archwilio'r dull gorau o dynnu sylw awdurdodau lleol at yr angen i flaenoriaethu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau. Byddwn hefyd yn edrych ar ffyrdd o gynyddu'r posibiliadau i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau eraill gydweithio'n agos â'r Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf drwy Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Gronfa'n arf allweddol sydd eisoes wedi arwain at welliantsylweddol yn yr ymgysylltiad rhwng awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill a'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Comisiynir gwaith peilot drwy Wasanaeth Hyfforddi Cymunedau yn Gyntaf a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau etholedig a rheolwyr gwasanaethau o fewn awdurdodau lleol ynglŷn â'r materion a amlygir yn yr argymhelliad hwn. Gan ddefnyddio modelau megis y Rhaglen Dysgu Cynhwysiant Cymdeithasol, darperir hyfforddiant a chymorth i annog cydweithio'n agosach â phartneriaethau a phreswylwyr.

Bydd y gwerthusiad allanol o'r rhaglen yn ystyried i ba raddau y mae'r darparwyr gwasanaethau'n rhoi sylw i wella canlyniadau yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

Mae gwaith ar droed hefyd i ddatblygu set fach o ddangosyddion a fyddai'n briodol ar gyfer y rhaglen. Yn y lle cyntaf, mae'r modelau presennol a ddatblygwyd gan rai ardaloedd awdurdodau lleol yn cael eu hystyried fel sail posibl ar gyfer fframwaith cenedlaethol. Byddwn yn

ystyried a oes modd datblygu dangosydd ar gyfer “lleihau’r bwlch” fel dull allweddol o fesur llwyddiant gwasanaethau a rhaglenni.

c) Mae’n ofynnol i’r holl Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC) gynorthwyo i gyflenwi Cynlluniau Gweithredu Cymunedol pryd bynnag y bo’n briodol. Fodd bynnag, adroddodd y CNLC mai ychydig o ymgysylltiad a fu â Llywodraeth y Cynulliad i ddehongli’r modd y byddent yn cyflawni’r gofyniad hwn, a chyfyngedig iawn fu’r monitro gan yr isadrannau noddi ar berfformiad y CNLC yn hyn o beth. Roedd rhai CNLC yn fwy gweithgar na’i gilydd o ran cefnogi’r rhaglen, ond roedd rhai’n datgan ei bod yn anodd iddynt, fel cyrff cymharol fach, i ymgysylltu â rhaglen mor eang â Cymunedau yn Gyntaf. Er mwyn cynyddu cyfraniad yr holl CNLC a datblygu dull gweithredu wedi’i deilwra i anghenion unigol, yn hytrach na defnyddio “yr un dull i bawb”, **dylai Llywodraeth y Cynulliad gydweithio â CNLC unigol i gytuno ar eu cyfraniad hwy i’r rhaglen gan ystyried eu potensial i gyflawni ei hamcanion, a dylai fonitro perfformiad y cyrff unigol wedyn, gyferbyn â’r hyn a gytunwyd.**

<u>*Ymateb*</u>

***Derbyn***

Y llynedd, ysgrifennodd Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Cyhoeddus a Chyflenwi Llywodraeth Leol at yr holl Gyrff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad (CNLC), Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol, a’r Prif Swyddogion Tân a Heddlu, i amlinellu pwysigrwydd sefydlu cysylltiadau â Chronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf ac annog ymgysylltiad â’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Yn sgîl hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd â’r CNLC i drafod eu cyfraniad i’r rhaglen a’r ffyrdd gorau o wella’r cyfraniad hwnnw. Bydd y gyfres hon o gyfarfodydd yn parhau, gan edrych ymhellach ar y cyfraniad y gall CNLC ei wneud i’r rhaglen. Rydym yn cytuno nad yw “yr un dull i bawb” yn gweithio; mae CNLC yn amrywio o ran eu maint a’u perthnasedd i’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Byddwn yn sicrhau bod swyddogaeth CNLC mewn perthynas â Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei adlewyrchu yn eu llythyrau cylch gwaith a’u cynlluniau gweithredu. Cynhelir trafodaethau gyda’r isadrannau noddi perthnasol yn ystod y flwyddyn galendr hon er mwyn sicrhau bod monitro priodol yn digwydd.

d) Mae awdurdodau lleol yn allweddol i’r gwaith o gyflenwi’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, nid yw gwella canlyniadau pobl

sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn flaenoriaeth yn null Llywodraeth y Cynulliad o reoli perfformiad awdurdodau lleol. Yn benodol, nid oedd y Cytundebau Gwella na'r Cytundebau Polisi blaenorol, a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn annog a gwobrwyo gwelliannau mewn perfformiad, yn cynnwys targedau a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad ystyried a oes cyfleoedd, er enghraifft drwy ddiwygio Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella, i annog awdurdodau lleol i ganolbwyntio mwy ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wrth gyflenwi eu gwasanaethau.**

_Ymateb_

***Derbyn***

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol geisio lleihau anfanteision o ran y ddarpariaeth gwasanaethau a'u hygyrchedd – boed yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf neu mewn mannau eraill. Byddwn yn cyhoeddi Canllawiau Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella cyn bo hir, a bydd y rheiny'n adlewyrchu'r Mesur.

e) Mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cynnwys y darparwyr gwasanaethau allweddol lleol ac mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng amcanion craidd y Byrddau hyn a'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig mewn perthynas â datblygu gwasanaethau sy'n ymateb i anghenion y dinasyddion. Fodd bynnag, nid oes cysylltiadau strategol wedi'u datblygu rhwng Cymunedau yn Gyntaf a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol. **Dylai'r Byrddau Gwasanaethau Lleol gydweithio'n fwy agos â'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn eu hardaloedd, er mwyn gwella'r canlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw mewn ardaloedd cymunedau yn Gyntaf. Dylai canllawiau Llywodraeth y Cynulliad i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol ddatgan yn gliriach bod angen, cyhyd ag y bo modd, i gynlluniau, targedau a mesuryddion perfformiad y Byrddau fod yn gyson â rhai'r partneriaethau lleol.**

_Ymateb_

***Derbyn***

Y llynedd, tynnwyd sylw cynrychiolwyr Llywodraeth y Cynulliad ar y Byrddau Gwasanaethau Lleol at lythyr y Cyfarwyddwr Cyffredinol ynglŷn â phlygu rhaglenni, a gofynnwyd iddynt godi Cymunedau yn Gyntaf fel y bo'n briodol o fewn eu trafodaethau fel Byrddau. O ganlyniad, er enghraifft, cafwyd trafodaethau adeiladol gyda Bwrdd Gwasanaethau Lleol Merthyr Tudful ynglŷn a sicrhau cysylltiad agosach rhwng gwaith y Bwrdd a'r partneriaethau Cymunedau yn

Gyntaf. Drwy gynnwys y partneriaethau yn yr ymgynghori ynglŷn â'r Strategaeth Gymunedol drosfwaol ym Merthyr Tudful, sicrhawyd bod gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, y Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf a'r partneriaethau eraill amcanion cyffredin i'w cyflawni.

Swyddogaeth strategol sydd i'r Byrddau Gwasanaethau Lleol o ran y gwaith partneriaeth yn eu hardal; y partneriaethau statudol fydd yn gyfrifol am gynllunio'r gwasanaethau'n fanwl a sicrhau y'u cyflenwir ar draws ffiniau'r gwasanaethau. Bydd y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn arwain prosiectau arloesi penodol hefyd; bydd graddau eu hymgysylltiad â'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf yn dibynnu ar yr ardal awdurdod lleol benodol ac ar ffocws penodol y prosiect. Er enghraifft, mae Byrddau Gwasanaethau Lleol yn cydweithio ar brosiectau gyda phartneriaethau Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Cheredigion.

Er mwyn ymwreiddio'r gwaith hwn mewn modd mwy eang a chyson, cynhelir gweithdy undydd ym mis Mai 2010 a fydd yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a rheolwyr y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Bydd y gweithdy'n mapio'r arferion presennol ac yn datblygu cynigion ar gyfer cryfhau'r cysylltiadau rhwng partneriaethau cymunedol a Byrddau Gwasanaethau Lleol.

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried pa waith pellach sydd ei angen er mwyn sicrhau bod gwaith y Byrddau Gwasanaethau Lleol a'r partneriaethau statudol wedi'i gysylltu'n fwy effeithiol â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

f) Pan lansiwyd Cymunedau yn Gyntaf, cydnabu Llywodraeth y Cynulliad y byddai angen i'r darparwyr gwasanaethau gynyddu eu galluedd er mwyn ymateb i'r rhaglen. Fodd bynnag, ychydig a wnaed i fwrw ymlaen â'r rhan hon o'r rhaglen, ac roedd cydlynwyr y partneriaethau'n mynegi rhwystredigaeth ynglŷn â'r diffyg dealltwriaeth o anghenion penodol ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ym mhlith y darparwyr gwasanaethau. Yn 2004, cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru swyddogaeth polisi o fewn yr Uned Cymunedau yn Gyntaf, i roi cyngor i gydweithwyr yn adrannau eraill Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â datblygu rhaglenni a fyddai'n cydgysylltu â gwaith Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Uned Cymunedau yn Gyntaf yn bwriadu datblygu ei gysylltiadau ag adrannau a gwasanaethau eraill ymhellach. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddatblygu a gweithredu rhaglen o hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth ar gyfer swyddogion Llywodraeth y Cynulliad a darparwyr gwasanaethau eraill. Dylai'r broses adeiladu galluedd hon fanteisio ar y gwersi a ddysgwyd drwy'r Prosiect Dysgu Cynhwysiant Cymdeithasol yng Nghonwy.**

*Ymateb*

***Derbyn***

Cynhaliwyd trafodaethau gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a sefydliadau'r Trydydd Sector ynglŷn â'r modd y gall modelau megis y Rhaglen Dysgu Cynhwysiant Cymdeithasol gael eu datblygu a'u rhoi ar waith ym mhlith darparwyr gwasanaethau a swyddogion Llywodraeth y Cynulliad. Byddwn yn ceisio ymrwymiad yr holl bartïon i roi rhaglen fwy cynhwysfawr na'r Rhaglen Dysgu Cynhwysiant Cymdeithasol ar waith yn ehangach, gan fanteisio yn benodol ar y profiad o'r rhaglen honno.

O fewn y rhaglen hyfforddiant graidd, a reolir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru o dan gontract gan Lywodraeth y Cynulliad, mae cwrs hyfforddi'n cael ei dreialu gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth o Cymunedau yn Gyntaf a hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng swyddogion awdurdodau lleol ac aelodau etholedig, rheolwyr gwasanaethau a gweithwyr Cymunedau yn Gyntaf. Un o nodweddion allweddol y cwrs yw dod â rheolwyr gwasanaethau i gysylltiad uniongyrchol â'r rhai sy'n gweithio yn y gymuned. Rydym yn cydweithio'n agos â CLlLC a CGGC ar hyn ac yn manteisio ar y gwersi a ddysgwyd drwy'r Rhaglen Dysgu Cynhwysiant Cymdeithasol sy'n cael ei threialu yn Rhondda Cynon Taf.

g) Cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad drefn gyllido newydd o fis Ebrill 2009 ymlaen, i barhau am dair blynedd. O dan y drefn honno, gall partneriaethau wneud cais am gyllid ychwanegol o Gronfa Canlyniadau ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau newydd. Mae'r profiad o flynyddoedd cynnar Cymunedau yn Gyntaf yn awgrymu bod y partneriaethau mwy hirsefydlog yn fwy tebygol o fod mewn sefyllfa gryfach i wneud cais i'r ffynhonnell gyllid hon. Er mwyn lleihau'r perygl y bydd y Gronfa newydd yn atgyfnerthu'r patrymau cyllido hanesyddol, **dylai Llywodraeth y Cynulliad ddarparu cefnogaeth ychwanegol fel y bo'n briodol, i ddatblygu sgiliau ysgrifennu ceisiadau er enghraifft, i'r partneriaethau hynny sy'n debygol o'i chael yn anos cyrchu'r Gronfa Canlyniadau.**

*Ymateb*

***Derbyn***

Mae gwaith eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â hyn, o dan y contractau Hyfforddi, Cyngor a Chymorth a reolir gan CGGC ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae hyfforddiant ar y Gronfa Canlyniadau yn elfen allweddol o'r contract Hyfforddi. Mae gwasanaeth y contract Cyngor a Chymorth yn ymateb i ymholiadau gan ymgeiswyr posibl sydd wrthi'n paratoi eu ceisiadau am gyllid o'r Gronfa Canlyniadau. Mae CGGC yn darparu cyngor cyffredinol ynglŷn ag ysgrifennu ceisiadau hefyd.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â CGGC i sicrhau bod y contractau'n briodol i anghenion y partneriaethau. Yn ogystal,

mae'r Uned Cymunedau yn Gyntaf yn cynnig cefnogaeth i'r holl bartneriaethau ddatblygu a chryfhau eu ceisiadau i'r Gronfa Canlyniadau. Anaml iawn y gwrthodir Datganiadau o Ddiddordeb yn gyfan gwbl; yn hytrach, darperir cyngor a chefnogaeth gan ein Timau Gweithredu Rhanbarthol er mwyn cynorthwyo'r partneriaethau i ymdrin â gwendidau. Bwriad y broses ailadroddol hon yw rhoi cyfle cyfartal i bob ardal sicrhau llwyddiant drwy'r Gronfa Canlyniadau.

Cedwir cyfrif o'r nifer sy'n manteisio ar y Gronfa Canlyniadau, a nodir pa bartneriaethau sy'n cyrchu'r Gronfa a'r modd y dosberthir y cyllid yn rhanbarthol a chenedlaethol.

h) Ar lefel leol, mae peth dryswch ynghylch pwy sy'n gyfrifol am blygu rhaglenni, gan fod canllawiau Cymunedau yn Gyntaf yn gosod y cyfrifoldeb ar nifer o bobl. Yn ymarferol, cydlynwyr y partneriaethau sy'n tueddu i ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn. Fodd bynnag, waeth pwy (o fewn y gymuned) sy'n gyfrifol am hwyluso plygu rhaglenni, bydd y rhwystr sylfaenol yn dal i sefyll, sef nad oes ganddynt unrhyw awdurdod, a dylanwad cyfyngedig yn unig, dros y darparwyr gwasanaethau. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad, yn ei holl ganllawiau mewn perthynas â Chymunedau yn Gyntaf, ei gwneud yn glir mai'r darparwyr gwasanaethau sydd â'r cyfrifoldeb pennaf dros blygu rhaglenni, ac mai prif bwrpas y partneriaethau yw darparu mecanwaith a fydd yn helpu i sicrhau bod y gwasanaethau a gyflenwir yn lleol yn diwallu anghenion y gymuned leol.**

<u>*Ymateb*</u>

***Derbyn***

Mae canllawiau Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu diwygio ar hyn o bryd a byddant yn datgan yn glir mai'r darparwyr gwasanaethau sydd yn bennaf gyfrifol am blygu rhaglenni, ac mai prif bwrpas partneriaethau yw helpu i sicrhau y cyflenwir gwasanaethau i ddiwallu'r angen yn lleol. Bydd yn allweddol adeiladu cysylltiadau cryf rhwng y partneriaethau a darparwyr gwasanaethau er mwyn plygu rhaglenni'n llwyddiannus. Bydd angen i'r partneriaethau amlinellu eu blaenoriaethau i ddarparwyr gwasanaethau, a swyddogaeth Llywodraeth y Cynulliad fydd hyrwyddo plygu rhaglenni ar bob lefel.

i) Mae'r system bresennol o fonitro perfformiad partneriaethau, sy'n mesur perfformiad gyferbyn â'r canlyniadau blynyddol, yn awgrymu bod partneriaethau'n gyfan gwbl atebol am gyflawni amcanion na allant eu cyflawni ar ben eu hunain. I sicrhau bod y broses fonitro'n canolbwyntio'n fwy priodol ar gyfraniad y partneriaethau i'r canlyniadau, **dylai Llywodraeth y Cynulliad:**

a. **ei gwneud yn glir bod angen i'r partneriaethau weithio gyda rhanddeiliaid lleol a'r gymuned i bennu canlyniadau, ond y dylai partneriaethau ganfod y ffordd orau o gyfrannu at y canlyniadau hynny a mesur ac adrodd am eu cynnydd gyferbyn â'r cyfraniad y penderfynwyd arno; a**

b. **nodi a lledaenu enghreifftiau o arferion da lle mae darparwyr gwasanaethau wedi gweithio gyda phartneriaethau i gyflawni amcanion a nodir yng nghynlluniau gweithredu partneriaethau.**

_Ymateb_

***Derbyn***

a. Rydym yn gweld potensial i'r partneriaethau gydweithio ag amryw o randdeiliaid lleol a'r gymuned er mwyn cyfrannu yn y ffordd orau i'r canlyniadau a bennir. Mae'n bosibl hefyd y bydd hyn yn arwain at gydweithio agosach ar lefel leol. [gweler hefyd yr ymatebion i argymhellion j a k isod.]

Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dechrau cynnal cyfres o gyfarfodydd gydag awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn galendr hon er mwyn adolygu'r sefyllfa bresennol o ran y prosesau ar gyfer cytuno ar gyfraniad y Partneriaethau i'r canlyniadau a bennir.

b. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn llawn gydnabod yr angen i hyrwyddo enghreifftiau o blygu rhaglenni (darparwyr gwasanaethau'n cydweithio'n agos â phartneriaethau). Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydweithio'n agos â mudiad Empower yn rhan o'r contract Cymorth Cenedlaethol Cymunedau yn Gyntaf er mwyn lledaenu enghreifftiau o arferion da yn fwy eang. Bydd y rhain yn cynnwys enghreifftiau o gydweithio agos rhwng darparwyr a phartneriaethau, e.e. wrth gyflawni eu canlyniadau.

j) Ar hyn o bryd, ni all Llywodraeth y Cynulliad fesur i ba raddau y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi cyfrannu at y canlyniadau economaidd-gymdeithasol. Mae pob partneriaeth yn defnyddio dangosyddion gwahanol i fesur ei chynnydd ei hunan, ac mae amrywiad mawr yn y "canlyniadau" blynyddol y mae'r partneriaethau'n adrodd gyferbyn â hwy – yn wir, nid canlyniadau yw llawer ohonynt mewn gwirionedd. **Dylai Llywodraeth y Cynulliad weithio gyda'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf i ddatblygu set fach o ddangosyddion cyffredin i nodi'r graddau y mae'r rhaglen yn cyfrannu at wella'r canlyniadau i bobl sy'n byw yn yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Dylai Llywodraeth y Cynulliad ddefnyddio'r dangosyddion hyn yn sail ar gyfer ei hasesiad o'r gwerth am arian a roddir gan y rhaglen.**

*Ymateb*

***Derbyn***

Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn adolygu'r broses o bennu canlyniadau'r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Mae swyddogion a chydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf wrthi'n gweithio i ddatblygu set fach o ddangosyddion a fyddai'n briodol i'r rhaglen. Yn y lle cyntaf, caiff y modelau sydd eisoes wedi'u datblygu gan rai awdurdodau lleol eu hystyried fel sail posibl ar gyfer fframwaith cenedlaethol.

Yn gysylltiedig â hyn, bydd swyddogion Cymunedau yn Gyntaf yn cydweithio'n agos â Thîm Gwasanaethau Dadansoddi Llywodraeth y Cynulliad i sicrhau y datblygir dangosyddion priodol a all fod yn sail i asesiad o'r gwerth am arian.

k) Mae perygl y bydd canolbwyntio ar y targedau cenedlaethol yn y fframwaith monitro yn tynnu sylw oddi ar y weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal a nodir yn y Cynlluniau Gweithredu Cymunedol - os ydynt yn bodoli. **Drwy'r ymweliadau monitro blynyddol, dylai Llywodraeth y Cynulliad sicrhau bod cysylltiad clir rhwng targedau blynyddol pob partneriaeth a Chynllun Gweithredu Cymunedol yr ardal, a'u bod yn dangos yn glir sut mae'r targedau arfaethedig yn cefnogi'r camau gweithredu allweddol y mae'n rhaid i'r bartneriaeth eu cymryd i wella'r canlyniadau i'r bobl leol.**

*Ymateb*

***Derbyn***

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn monitro'r modd y mae'r targedau'n cysylltu â'r Cynllun Gweithredu Cymunedol ar gyfer yr ardal. Byddwn hefyd yn sicrhau bod y targedau arfaethedig yn cefnogi'r camau gweithredu allweddol y mae'n rhaid i'r Bartneriaeth yn eu cymryd er mwyn gwella'r canlyniadau i bobl leol.

***Argymhelliad 2.*** *Wrth iddi fynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys rhoi ystyriaeth briodol i raglen Cymunedau yn Gyntaf yn y broses porth i bolisïau, a hynny ar unwaith. Dylai hefyd ddatblygu dull o ailasesu ei pholisïau presennol i sicrhau, pan fo hynny'n bosibl, eu bod yn ystyried Cymunedau yn Gyntaf. Wrth adolygu'i pholisïau, dylai Llywodraeth Cymru gofio bod hyn yn gyfle i sicrhau bod ei staff yn canolbwyntio eto ar amcanion Cymunedau yn Gyntaf ac i hyrwyddo dull mwy cydgysylltiedig o weithio. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru baratoi adroddiad cynnydd cyn pen 12 mis.*

*Ymateb*

***Derbyn***

Mae proses “Porth i Bolisïau” Llywodraeth y Cynulliad bellach yn ymgorffori ystyriaeth benodol o’r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Bydd rhaid i bolisïau newydd ddangos sut maent yn targedu’r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac yn cysylltu â’r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

Bydd swyddogion hefyd yn gweithio gydag isadrannau polisi eraill i sicrhau bod y polisïau presennol yn canolbwyntio ar yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Darperir adroddiad diweddaru ymhen 12 mis.

***Argymhelliad 3.*** *Un o argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol oedd y dylid rhoi mwy o anogaeth i awdurdodau lleol, a chyrff eraill sy’n darparu gwasanaethau cyhoeddus, ganolbwyntio mwy ar ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wrth ddarparu gwasanaethau, ac wrth roi’r argymhelliad hwn ar waith, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y posibilrwydd o’u hannog i blygu rhaglenni drwy gynnig cymhelliant a chyfeiriad – dull y foronen a’r wialen.*

*Ymateb*

***Derbyn***

Rydym yn edrych ar y ffyrdd gorauo gymell a rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau eraill er mwyn tynnu eu sylw at yr angen i flaenoriaethu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau. Rhoddir pwyslais hefyd ar y potensial i’r awdurdodau lleol gydweithio’n agos â’r partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf drwy Gronfa Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf.

***Argymhelliad 4.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth gyflawni argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, yn amlinellu’n glir sut y caiff y gwaith o fonitro rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei wella, a’r mesurau a gaiff eu defnyddio i ddangos y graddau y mae amcanion y rhaglen yn cael eu cyflawni.*

*Ymateb*

***Derbyn***

Caiff y monitro ei wella drwy adolygu’r modd yr ydym yn nodi canlyniadau partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Mae gwaith ar droed rhwng swyddogion a chydlynwyr Cymunedau yn Gyntaf, i ddatblygu set fach o ddangosyddion a fyddai’n briodol ar gyfer y rhaglen. Gweler hefyd yr ymateb i argymhelliad (j).

Bydd gwerthusiad allanol o’r rhaglen, a gynhelir yn ystod 2010-11, yn cynnwys asesiad o’r canlyniadau cymharol rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a rhannau eraill o Gymru.

***Argymhelliad 5.*** *Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro’r Gronfa Ganlyniadau’n ofalus, a’i bod yn sicrhau ei bod yn gallu arddangos canlyniadau caled ar gyfer yr arian cyhoeddus a fuddsoddwyd sy’n dangos cynnydd o ran cyflawni amcanion Cymunedau yn Gyntaf. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru baratoi adroddiad cynnydd, a rhoi manylion y camau a gymerir drwy gyfrwng y rhaglenni i gyflawni’r amcanion, gan wneud hynny cyn pen 12 mis.*

*Ymateb*

***Derbyn***

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn monitro’r Gronfa Canlyniadau’n fanwl. Rhaid i bob cais a gymeradwyir arddangos canlyniadau clir o ran budd y gwaith i’r gymuned. Unwaith y bydd cais wedi’i gymeradwyo, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn monitro’n fanwl y modd y caiff ei roi ar waith.

Darperir adroddiad cynnydd am y Gronfa Canlyniadau o fewn y 12 mis nesaf.